



## Newid categori iaith Ysgol Bro Hyddgen

Dogfen Ymgynghori



# Ymgynghoriad ar newid categori iaith Ysgol Bro Hyddgen

## Cynnwys

Ymgynghoriad ar newid categori iaith Ysgol Bro Hyddgen.....	2
<b>TROSOLWG.....</b>	<b>4</b>
<b>RHAN A – Y DDADL DROS NEWID.....</b>	<b>6</b>
1. CEFNDIR.....	6
2. PAM FOD ANGEN NEWID YM MHOWYS.....	8
3. Y CYD-DESTUN STRATEGOL.....	10
4. PAM FOD ANGEN NEWID YN YSGOL BRO HYDDGEN.....	11
5. MANTEISION DWYIEITHRWYDD.....	12
6. OPSIYNAU A YSTYRIWYD.....	13
7. OPSIYNAU GWEITHREDU.....	15
8. ADNABOD OPSIWN A FFAFRIR.....	17
<b>RHAN B – Y CYNNIG.....</b>	<b>18</b>
9. TROSOLWG.....	18
10. RHESYMAU AM Y CYNNIG.....	18
11. MANTEISION AC ANFANTEISION.....	19
12. RISGIAU.....	19
13. AMSERLEN WEITHREDU BOSIB.....	20
<b>RHAN C – EFFAITH DEBYGOL Y CYNNIG.....</b>	<b>21</b>
14. EFFAITH AR DDISGYBLION.....	21
15. EFFAITH AR STAFF.....	21
16. EFFAITH AR DREFNIADAU LLYWODRAETHU.....	22
17. EFFAITH AR ANSAWDD A SAFONAU MEWN ADDYSG.....	22
18. YR ANGEN AM LEOEDD YSGOL A'R EFFAITH AR ARGAELEDD LLEOEDD A HYGYRCHEDD YSGOLION.....	26
19. ADNODDAU ADDYSG A GOBLYGIADAU ARIANNOL ERAILL.....	27
20. FFACTORAU I'W HYSTYRIED YNG NGHYSWLLT CYNIGION I NEWID CYFRWNG IAITH.....	29
21. EFFAITH AR Y DDARPARIAETH CHWECHED DOSBARTH.....	29
22. YSTYRIAETHAU ERAILL.....	32
23. ASESIAU O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB, Y GYMUNED AC AR Y GYMRAEG.....	33
<b>RHAN D – MANYLION YR YMGYNGHORIAD.....</b>	<b>35</b>
<b>ATODIAD A – DATA ALLWEDDOL.....</b>	<b>38</b>

<b>ATODIAD B – DADANSODDIAD SWOT A FFACTORAU HANFODOL I LWYDDIANT – OPSIYNAU IAITH.....</b>	<b>43</b>
<b>ATODIAD C – DADANSODDIAD SWOT A FFACTORAU HANFODOL I LWYDDIANT – OPSIYNAU GWEITHREDU.....</b>	<b>50</b>
<b>ATODIAD D – FFURFLEN YMATEB.....</b>	<b>56</b>

Os oes angen copi o'r ddogfen hon mewn fformat gwahanol arnoch, ffoniwch y Tîm Trawsnewid Addysg ar 01597 826277, neu e-bostiwch [school.organisation@powys.gov.uk](mailto:school.organisation@powys.gov.uk).

# Ymgynghoriad ar newid categori iaith Ysgol Bro Hyddgen

## TROSOLWG

### 1. Y Cynnig

Mae Cyngor Sir Powys yn ymgynghori ar gynnig i newid categori iaith Ysgol Bro Hyddgen. Mae'r cynnig fel a ganlyn:

- Gwneud addasiadau rheoledig i newid cyfrwng yr addysg yn Ysgol Bro Hyddgen i fod yn gyfrwng Cymraeg.
- Byddai hyn yn cael ei gyflwyno'n raddol o un flwyddyn i'r llall gan ddechrau gyda Blwyddyn Derbyn ym Medi 2022.

### 2. Sut i ymateb i'r ymgynghoriad

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy lenwi'r holiadur ar-lein ar ein gwefan:

<https://cy.powys.gov.uk/article/10004/Ysgol-Bro-Hyddgen-Machynlleth>

Mae copi papur o'r holiadur hefyd ar gael yng nghefn y ddogfen hon. Neu gallwch ymateb yn ysgrifenedig drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.

Rhaid i ni dderbyn pob ymateb erbyn **26 Ionawr 2021**.

### 3. Manylion cyswllt

Dylid anfon pob ymateb i'r cyfeiriad canlynol:

Y Tîm Trawsnewid Addysg  
Cyngor Sir Powys  
Neuadd y Sir  
Llandrindod  
Powys  
LD1 5LG

E-bost: [school.consultation@powys.gov.uk](mailto:school.consultation@powys.gov.uk)

Ffôn: 01597 826277

### 4. Beth fydd yn digwydd nesaf

Unwaith y daw cyfnod yr ymgynghori i ben, bydd adroddiad ymgynghori'n cael ei gynhyrchu'n amlinellu'r adborth a gawsom. Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried yr adroddiad ymgynghori gan benderfynu a ydynt am symud ymlaen neu beidio ag unrhyw un o'r opsiynau a gyflwynir yn nogfen yr ymgynghoriad. Disgwylir i hyn ddigwydd yng ngwanwyn 2021.

Os bydd y Cabinet yn penderfynu symud ymlaen gyda'r cynigion, cyhoeddir Hysbysiad Statudol yn rhoi 28 diwrnod i bobl gyflwyno gwrthwynebiadau. Byddai angen i'r Cabinet wedyn ystyried adroddiad arall yn crynhoi unrhyw wrthwynebiadau a phenderfynu symud ymlaen gyda'r cynnig neu beidio.

## RHAN A – Y DDADL DROS NEWID

Mae Cyngor Sir Powys yn ymgynghori ar y cynnig canlynol:

- Gwneud addasiadau rheoledig i newid cyfrwng yr addysg yn Ysgol Bro Hyddgen i fod yn gyfrwng Cymraeg.
- Byddai hyn yn cael ei gyflwyno'n raddol o un flwyddyn i'r llall gan ddechrau gyda Blwyddyn Derbyn ym Medi 2022.

### 1. CEFNDIR

Mae Ysgol Bro Hyddgen yn ysgol pob oed wedi'i lleoli yn nhref Machynlleth yng ngogledd Powys. Agorwyd yr ysgol ym mis Medi 2014 ar ôl uno Ysgol Gynradd Machynlleth ac Ysgol Bro Ddyfi.

Mae'r safle cynradd yn gwasanaethu tref Machynlleth yn bennaf a'r safle uwchradd yn gwasanaethu dalgylch ehangach. Ar wahân i Ysgol Bro Hyddgen ei hun, dim ond tair ysgol gynradd arall sydd yn nalgylch yr ysgol. Mae'r tair yn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg sy'n cael eu rhedeg o dan un pennaeth fel rhan o ffederasiwn.

Rhoddir crynodeb isod o'r data allweddol ar Ysgol Bro Hyddgen:

	Math o ysgol	Categori iaith	Niferoedd derbyn
<b>Ysgol Bro Hyddgen</b>	Ysgol Ganol Gymunedol (pob oed)  Cyngor Sir Powys sy'n berchen ar adeilad yr ysgol	Dwyieithog (math B)	31 - Cynradd 73 - Uwchradd

Dyma nifer y disgyblion<sup>1</sup> yn Ysgol Bro Hyddgen ar hyn o bryd:

	D	1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	11	12	13	Cyfanswm
<b>Cyfrwng Cymraeg</b>	11	19	17	13	16	25	12	43	28	39	29	35	17	28	332
<b>Cyfrwng Saesneg</b>	5	6	6	6	10	7	12	8	17	15	17	18	6	12	145
<b>Cyfanswm</b>	16	25	23	19	26	32	24	51	45	54	46	53	23	40	477

Mae nifer isel y disgyblion cyfrwng Saesneg yn her i Ysgol Bro Hyddgen o ran gallu cynnig darpariaeth briodol i'r dysgwyr hyn.

<sup>1</sup> Cyllid - NOR – Diwrnod Cyfrif Disgyblion 2020

Yn y sector cynradd, addysgir y plant cyfrwng Saesneg mewn dosbarthiadau bach, gyda nifer uchel o grwpiau blwyddyn ym mhob dosbarth.

Yn y sector uwchradd, er mwyn gallu darparu ar gyfer disgyblion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg, addysgir llawer o'r gwersi'n ddwyieithog, gyda'r addysgu'n digwydd yn Gymraeg ac yn Saesneg yn yr un dosbarth. Nid yw hyn yn fodel dymunol i ddisgyblion cyfrwng Cymraeg na chyfrwng Saesneg.

Mae Strategaeth y Cyngor ar gyfer Trawsnewid Addysg ym Mhowys yn cynnwys nod 'i wella mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws yr holl gyfnodau allweddol' ynghyd ag amcan 'i symud ysgolion ar hyd y continwmm iaith'.

Er mwyn cwrdd â'r nodau a'r amcanion hyn, mae'r Cyngor wedi bod yn ystyried opsiynau i symud Ysgol Bro Hyddgen ar hyd y continwmm iaith, er mwyn sicrhau bod gan holl ddisgyblion yr ysgol gyfle i ddod yn ddwyieithog, ac felly'n rhugl yn Gymraeg ac yn Saesneg, a chyfrannu felly at ddyhead Llywodraeth Cymru i weld miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae hyn wedi cynnwys y camau canlynol:

- Trafodaethau gyda chynrychiolwyr o Ysgol Bro Hyddgen
- Ymarfer arfarnu opsiynau
- Dogfen arfarnu opsiynau wedi'i ystyried a'i gytuno gan Fwrdd y Rhaglen Trawsnewid Addysg
- Argymhelliad wedi'i ystyried a'i gytuno gan y Cabinet

Yr argymhelliad a gytunwyd gan y Cabinet ar 10 Tachwedd 2020 oedd dechrau ymgynghori ar y canlynol:

*'Gwneud addasiadau rheoledig i newid cyfrwng yr addysg yn Ysgol Bro Hyddgen i fod yn gyfrwng Cymraeg.*

*Byddai hyn yn cael ei gyflwyno'n raddol o un flwyddyn i'r llall gan ddechrau gyda Blwyddyn Derbyn ym Medi 2022.'*

## 2. PAM FOD ANGEN NEWID YM MHOWYS

Mae Powys yn awdurdod mawr, gwledig. Gan ymestyn dros chwarter holl dir Cymru, mae'n cynnwys dim ond 4.2% o'i phoblogaeth ac felly dyma'r sir fwyaf tenau ei phoblogaeth yng Nghymru. Mae darparu gwasanaethau ar draws ardal mor fawr a thenau ei phoblogaeth yn heriol a drud.

Er bod rhywfaint o ad-drefnu ysgolion wedi digwydd ym Mhowys yn y blynyddoedd diwethaf, mae seilwaith ysgolion y sir fwy neu lai'r un fath ag ydoedd ugain mlynedd yn ôl.

Mae Strategaeth newydd y Cyngor ar gyfer Trawsnewid Addysg ym Mhowys yn disgrifio nifer o heriau sy'n wynebu addysg yn y sir, heriau a gafodd eu hadnabod ar ôl ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol dros dymor yr hydref 2019 a thymor y gwanwyn 2020.

Rhoddir crynodeb isod o'r prif heriau sy'n wynebu'r Cyngor:

### i) Cyfran uchel o ysgolion bach

Ar sail ffigurau PLASC 2019, roedd 33 o ysgolion cynradd bach ym Mhowys – tua 40% o'r ddarpariaeth gynradd yn y sir. Roedd gan 21 o'r ysgolion hyn lai na 50 o ddisgyblion, ac mae cyfran yr ysgolion hyn o gyllid fesul pen at ei gilydd yn uwch na'r cyllid cyfartalog a roddir i ysgolion cynradd ym Mhowys.

### ii) Nifer y disgyblion yn gostwng

Mae nifer y disgyblion wedi gostwng dros y deng mlynedd diwethaf a'r disgwyl yw y bydd y nifer yn gostwng ymhellach dros y pump nesaf. Disgwylir i nifer y disgyblion cynradd ym Mhowys ostwng o tua 4% erbyn 2025.

### iii) Nifer uchel o leoedd gwag

Ar sail ffigurau PLASC 2019, roedd 18% o leoedd gwag yn ysgolion cynradd Powys. O ystyried y disgwylir i nifer y disgyblion ar draws Powys ostwng yn gyffredinol yn y blynyddoedd nesaf, bydd cyfran y lleoedd gwag ar draws y sir yn parhau i gynyddu.

### iv) Cyflwr yr adeiladau

Er i'r Cyngor fuddsoddi yn yr ystâd ysgolion drwy Raglen Ysgolion y 21<sup>ain</sup> Ganrif a'r Cynllun Rheoli Asedau, mae cyflwr yr adeiladau'n parhau i fod yn broblem ar draws Powys ynghyd â'r costau cynnal a chadw cysylltiedig.



**v) Pwysau ariannol**

Yn gyffredinol ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn wynebu pwysau ariannol sylweddol. Mae hyn yn effeithio ar bob maes gwasanaeth, gan gynnwys ysgolion. Mae amrywiadau helaeth yn y gwariant fesul disgybl ar draws ysgolion Powys gan amrywio rhwng £3,127 a £7,877 yn y sector cynradd.

**vi) Mynediad anghyfartal at addysg cyfrwng Cymraeg**

Yn wahanol i rannau eraill o Gymru, nid oes unrhyw dwf wedi bod yn nifer y disgyblion cyfrwng Cymraeg ym Mhowys yn y blynyddoedd diwethaf. Mae angen newid y cynnig cyfrwng Cymraeg ym Mhowys yn sylweddol i wrthdroi tuedd y blynyddoedd diwethaf a sicrhau bod gan holl ddysgwyr Powys fynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg gynhwysfawr drwy gydol eu gyrfaoedd addysgol.

**vii) Cynnig prin yn ôl-14 ac ôl-16 oed**

Ym mis Medi 2019, bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad ar ddarpariaeth ôl-16 oed a ddisgrifiodd nifer o heriau sy'n wynebu'r sector, gan gynnwys lleihad yn nifer y disgyblion, heriau ariannol a chynaliadwyedd y cwrwicwlwm, gan gynnwys darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

**viii) Mynediad anghyfartal at ddarpariaeth AAA**

Mae disgyblion y sir sydd ag anghenion addysgol arbennig (AAA) yn mynychu ystod o wahanol leoliadau gan gynnwys ysgolion arbennig, canolfannau arbenigol, uned cyfeirio disgyblion (PRU) ac ysgolion prif ffrwd.

Ar hyn o bryd nid yw'r disgyblion i gyd yn derbyn eu haddysg yn y lleoliad sy'n cwrdd orau â'r anghenion sydd ganddynt, a gan ddibynnu ar ble maen nhw'n byw, mae ganddynt fynediad at ddarpariaeth o wahanol fath ac o wahanol ansawdd.

**ix) Diffyg penderfyniadau gwleidyddol yn hanesyddol**

Er bod rhai datblygiadau wedi bod o ran seilwaith ysgolion yn y blynyddoedd diwethaf, mae methiant y Cyngor i weithredu nifer o gynigion proffil uchel yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf wedi gadael ei ôl ar Bowys ac ers hynny nid oes brwdfrydedd wedi bod dros ddechrau ar unrhyw raglen helaeth o ad-drefnu addysg.

### 3. Y CYD-DESTUN STRATEGOL

Yn ystod haf 2019, arolygwyd Gwasanaethau Addysg Powys gan Estyn. Roedd adroddiad Estyn yn dilyn yr arolygiad yn amlinellu pryderon sylweddol am gynnydd y Cyngor gydag ad-drefnu ysgolion ac yn cynnwys argymhelliad i 'sicrhau bod trefniadaeth y ddarpariaeth ar gyfer addysg ôl-16 oed, ysgolion nas cynhelir, addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg uwchradd yn cwrdd ag anghenion plant a phobl ifanc Powys.'

Yn dilyn cyhoeddi adroddiad yr arolygiad, aeth y Cyngor ati i gyflawni adolygiad strategol o ysgolion y sir yn 2019-20 a arweiniodd at ddatblygu Strategaeth newydd ar gyfer Trawsnewid Addysg ym Mhowys. Cafodd y strategaeth, a ddatblygwyd yn dilyn ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid, ei chymeradwyo yn Ebrill 2020.

Mae'r strategaeth yn cyflwyno Datganiad Gweledigaeth ac Egwyddorion Arweiniol fydd yn ategu gwaith y Cyngor o drawsnewid system addysg Powys dros y blynyddoedd nesaf.

Dyma'r Datganiad Gweledigaeth:

***Bydd holl blant a phobl ifanc Powys yn profi addysg ysbrydoledig o ansawdd uchel i'w helpu i ddatblygu'r wybodaeth, sgiliau a'r nodweddion fydd yn eu cynorthwyo i ddod yn ddinasyddion iach, economaidd gynhyrchiol, cymdeithasol gyfrifol, byd-eang ymroddedig a bodlon eu byd yng Nghymru'r unfed ganrif ar-hugain.***

Mae Strategaeth y Cyngor ar gyfer Trawsnewid Addysg ym Mhowys yn cynnwys nod 'i wella mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws yr holl gyfnodau allweddol' ynghyd ag amcan 'i symud ysgolion ar hyd y continwmm iaith'.

Er mwyn cwrdd â'r nodau ac amcanion hyn, mae'r Cyngor yn awyddus i ystyried opsiynau ar gyfer symud Ysgol Bro Hyddgen ar hyd y continwmm iaith. Byddai hyn yn sicrhau bod gan yr holl ddisgyblion a fyddai'n mynychu'r ysgol gyfle i ddod yn rhugl yn Gymraeg ac yn Saesneg a thrwy hynny'n cyfrannu at ddyhead Llywodraeth Cymru o weld miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

#### 4. PAM FOD ANGEN NEWID YN YSGOL BRO HYDDGEN

Mae trawsnewid addysg ym Mro Dyfi wedi bod ar droed ers nifer o flynyddoedd, er mwyn ateb a chwrdd â nifer o broblemau a heriau hanesyddol. Mae hyn wedi'i wneud fesul cam:

- **Cam 1: Sefydlu Ysgol Bro Hyddgen** – agorwyd Ysgol Bro Hyddgen ym mis Medi 2014 ar ôl uno Ysgol Gynradd Machynlleth ac Ysgol Bro Ddyfi. Pwrpas y broses uno hon oedd rhoi sylw i lawer o'r heriau oedd yn wynebu addysg yn y dref. Mae hyn wedi bod yn llwyddiant i'r Cyngor. Ers sefydlu'r ysgol, mae trefniadau arweinyddiaeth parhaol wedi bod yn eu lle ac mae ansawdd y ddarpariaeth addysg wedi gwella.
- **Cam 2: Cynlluniau i ddatblygu campws cymunedol newydd ar un safle'n hytrach na'r ddau safle presennol** – mae'r Cyngor wedi bod yn datblygu cynlluniau i godi adeilad newydd ar gyfer Ysgol Bro Hyddgen ers nifer o flynyddoedd. Bydd symud i adeilad newydd yn ateb rhai o'r problemau sy'n parhau i wynebu'r ysgol, fel yr adeiladau a'r ystafelloedd gwael ar y campws uwchradd yn enwedig, ac yn cynnig manteision ychwanegol i'r ysgol o fod wedi'i lleoli ar un campws.

Er i addysg weld newidiadau mawr yn nhref Machynlleth dros y blynyddoedd diwethaf, nid ydynt wedi rhoi sylw i statws dwy ffrwd yr ysgol, rhywbeth y tynnodd adroddiad Cabinet 2013 sylw ato gan argymhell bod ysgol pob oed yn cael ei sefydlu yn y dref.

Lleolir yr ysgol mewn ardal sy'n hanesyddol Gymraeg ei hiaith a ffrwd cyfrwng Saesneg Ysgol Bro Hyddgen yw'r unig ddarparwr bwydo cynradd cyfrwng Saesneg yn y dalgylch. Mae nifer y disgyblion cyfrwng Saesneg sy'n mynychu'r ddarpariaeth gynradd yn y dref wedi gostwng yn y blynyddoedd diwethaf sy'n golygu bod nifer y disgyblion cynradd sy'n mynychu'r ddarpariaeth cyfrwng Saesneg yn isel yn y dalgylch.

Dyma nifer y disgyblion<sup>2</sup> yn Ysgol Bro Hyddgen ar hyn o bryd:

	D	1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	11	12	13	Cyfanswm
<b>Cyfrwng Cymraeg</b>	11	19	17	13	16	25	12	43	28	39	29	35	17	28	332
<b>Cyfrwng Saesneg</b>	5	6	6	6	10	7	12	8	17	15	17	18	6	12	145
<b>Cyfanswm</b>	16	25	23	19	26	32	24	51	45	54	46	53	23	40	477

<sup>2</sup> Cyllid - NOR – Diwrnod Cyfrif Disgyblion 2020

Mae nifer isel y disgyblion cyfrwng Saesneg yn her i Ysgol Bro Hyddgen o ran gallu cynnig darpariaeth briodol i'r dysgwyr hyn.

Yn y sector cynradd, addysgir y plant cyfrwng Saesneg mewn dosbarthiadau bach, gyda nifer uchel o grwpiau blwyddyn ym mhob dosbarth.

Yn y sector uwchradd, er mwyn gallu darparu ar gyfer disgyblion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg, addysgir llawer o'r gwersi'n ddwyieithog, gyda'r addysgu'n digwydd yn Gymraeg ac yn Saesneg yn yr un dosbarth. Nid yw hyn yn fodel dymunol i ddisgyblion cyfrwng Cymraeg na chyfrwng Saesneg. Hefyd, mae dewis prin o bynciau i ddisgyblion cyfrwng Saesneg.

Mae Strategaeth y Cyngor ar gyfer Trawsnewid Addysg ym Mhowys yn cynnwys nod 'i wella mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws yr holl gyfnodau allweddol' ynghyd ag amcan 'i symud ysgolion ar hyd y continwmm iaith'.

Er mwyn cwrdd â'r nodau ac amcanion hyn, mae'r Cyngor yn awyddus i ystyried opsiynau ar gyfer symud Ysgol Bro Hyddgen ar hyd y continwmm iaith. Byddai hyn yn sicrhau bod gan yr holl ddisgyblion a fyddai'n mynychu'r ysgol gyfle i ddod yn ddwyieithog, ac felly'n rhugl yn Gymraeg ac yn Saesneg, a thrwy hynny'n cyfrannu at ddyhead Llywodraeth Cymru o weld miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

## **5. MANTEISION DWYIEITHRWYDD**

Mae rhwng 60% a 75 o boblogaeth y byd yn ddwyieithog, ac mae ymchwil rhyngwladol wedi dangos bod nifer o fanteision yn gysylltiedig â bod yn ddwyieithog. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Mae plant sydd â phrofiad o wahanol ieithoedd yn dod yn fwy ymwybodol o wahanol ddiwylliannau, pobl eraill a safbwyntiau gwahanol
- Mae plant dwyieithog yn tueddu i wneud yn well na phlant unieithog wrth wneud mwy nag un tasg ar yr un pryd a chanolbwyntio sylw
- Yn gyffredinol, mae'n haws i bobl ddwyieithog ddysgu ieithoedd eraill
- Mae ymchwil yn dangos bod dysgu iaith arall yn gallu oedi dechreuad dementia

Yng Nghymru, mae bod yn ddwyieithog mewn Cymraeg a Saesneg yn dod â manteision pellach wrth chwilio am waith, gan fod cyflogwyr yn gynyddol yn chwilio am bobl sy'n gallu gweithio mewn Cymraeg a Saesneg.

Addysg Gymraeg yw'r ffordd orau i sicrhau bod pobl ifanc yn dod yn hollol rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg. Nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n cael mynediad i addysg Gymraeg yn siarad Cymraeg pan maent yn dechrau yn yr ysgol. Fodd bynnag, cânt eu trochi yn y Gymraeg pan maent yn dechrau yn yr ysgol, gan ddod yn hollol rhugl, gyda'r gallu i gyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae gwybodaeth bellach am ddwyieithrwydd ac addysg Gymraeg ar gael yn <https://llyw.cymru/cymraeg-addysg>

## 6. OPSIYNAU A YSTYRIWYD

Mae'r opsiynau canlynol wedi eu hadnabod fel ffyrdd posib o symud Ysgol Bro Hyddgen ar hyd y continwmm iaith:

Opsiw'n	Disgrifiad
1	<p><b>Dim newid</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Ysgol Bro Hyddgen yn parhau i weithredu fel ysgol dwy ffrwd</li> <li>- Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg yn parhau i fod ar gael i ddisgyblion pob grŵp oed</li> </ul>
2	<p><b>Cynorthwyo'r ysgol i symud y ddarpariaeth Cyfnod Sylfaen ar hyd y continwmm iaith Gymraeg</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Cyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn raddol yn y Cyfnod Sylfaen yn unig</li> <li>- Yn y pen draw, byddai holl ddisgyblion Cyfnod Sylfaen yr ysgol yn derbyn darpariaeth cyfrwng Cymraeg</li> <li>- Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, gallai rhieni / disgyblion ddewis naill ai darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu gyfrwng Saesneg</li> <li>- Byddai unrhyw gynlluniau pellach i symud y ddarpariaeth ar hyd y continwmm iaith yn wynebu proses statudol bellach</li> </ul>
3	<p><b>Cynorthwyo'r ysgol i symud y ddarpariaeth gynradd ar hyd y continwmm iaith Gymraeg</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Cyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn raddol yn y blynyddoedd cynradd</li> <li>- Yn y pen draw, byddai holl ddisgyblion oed cynradd yr ysgol yn derbyn darpariaeth cyfrwng Cymraeg</li> <li>- Ar ddiwedd y blynyddoedd cynradd, gallai rhieni / disgyblion ddewis naill ai darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu gyfrwng Saesneg</li> <li>- Byddai unrhyw gynlluniau pellach i symud y ddarpariaeth ar hyd y continwmm iaith yn wynebu proses statudol bellach</li> </ul>
4	<p><b>Cynorthwyo'r ysgol i symud y ddarpariaeth uwchradd ar hyd y continwmm iaith Gymraeg</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Byddai'r ddarpariaeth gynradd yn Ysgol Bro Hyddgen yn parhau i gael ei darparu fel dwy ffrwd</li> <li>- Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg yn parhau i fod ar gael i ddisgyblion cynradd</li> <li>- Cyflwyno darpariaeth gwbl ddwyieithog yn raddol i'r blynyddoedd uwchradd</li> <li>- Byddai angen i ddisgyblion yn derbyn addysg drwy gyfrwng y Saesneg yn y cynradd drosglwyddo naill ai at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg neu fynd i ysgol arall</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Cymorth iaith Gymraeg ychwanegol yn cael ei gyflwyno i gynorthwyo disgyblion yn dewis trosglwyddo i ddarpariaeth gwbl ddwyieithog</li> <li>- Byddai unrhyw gynlluniau pellach i symud y ddarpariaeth ar hyd y continwmm iaith yn wynebu proses statudol bellach</li> </ul>
5	<p><b>Cynorthwyo'r ysgol i symud yr holl gyfnodau allweddol ar hyd y continwmm iaith Gymraeg</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Cyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn raddol</li> <li>- Yn y pen draw, byddai holl ddisgyblion yr ysgol yn derbyn darpariaeth cyfrwng Cymraeg gan sicrhau bod y disgyblion i gyd yn rhugl yn Gymraeg a Saesneg</li> <li>- Byddai cymorth iaith Gymraeg ychwanegol yn cael ei gyflwyno ochr yn ochr ag unrhyw newid i'r categori iaith, e.e. Trochi, cymorth iaith Gymraeg ychwanegol</li> </ul>
6	<p><b>Newid categori iaith yr ysgol i fod yn gyfrwng Cymraeg</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Byddai'r ddarpariaeth cyfrwng Saesneg yn yr ysgol yn dod i ben gyda gweithrediad y cynnig</li> <li>- Byddai angen i ddisgyblion cyfrwng Saesneg naill ai drosglwyddo i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg neu symud i ysgol wahanol</li> <li>- Byddai cymorth iaith Gymraeg ychwanegol yn cael ei gyflwyno ochr yn ochr ag unrhyw newid i'r categori iaith, e.e. Trochi, cymorth iaith Gymraeg ychwanegol</li> </ul>

Mae dadansoddiadau SWOT wedi eu gwneud ar bob un o'r opsiynau hyn. Aseswyd yr opsiynau hefyd yn erbyn nifer o ffactorau hanfodol i lwyddiant. Mae'r rhain i'w cael yn Atodiad B y ddogfen hon.

Ar sail y dadansoddiadau SWOT a'r asesiad yn erbyn y ffactorau hanfodol i lwyddiant, mae'r opsiwn a ffafir ar gyfer Ysgol Bro Hyddgen fel a ganlyn:

**Opsiwn 5: Cynorthwyo'r ysgol i symud yr holl gyfnodau allweddol ar hyd y continwmm iaith Gymraeg dros amser**

Y rhesymau am hyn yw:

- Bron ddim effaith ar y disgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Saesneg yn yr ysgol ar hyn o bryd – byddai'r ddarpariaeth yn parhau tan y byddent wedi gadael yr ysgol
- Yn y tymor hir, byddai'r ysgol yn gallu gweithredu'n fwy effeithlon
- Yn y tymor hir, gellid cynnig mwy o gyfleoedd drwy gyfrwng y Gymraeg
- Byddai mwy o ddisgyblion yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg
- Mae'n cwrdd â Strategaeth Trawsnewid Addysg y Cyngor ar gyfer Powys
- Arbedion ariannol posib i'r awdurdod yn y tymor hir
- Cyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn raddol

- Yn y pen draw, byddai holl ddisgyblion yr ysgol yn derbyn darpariaeth cyfrwng Cymraeg gan sicrhau bod y disgyblion i gyd yn rhugl yn Gymraeg a Saesneg
- Byddai cymorth iaith Gymraeg ychwanegol yn cael ei gyflwyno ochr yn ochr ag unrhyw newid i'r categori iaith, e.e. Trochi

## 7. OPSIYNAU GWEITHREDU

Mae nifer o opsiynau gweithredu posib ar gyfer symud ymlaen gyda'r opsiwn a ffafir uchod ar gyfer Ysgol Bro Hyddgen, fel a ganlyn:

Opsiwyn	Disgrifiad
<b>Opsiwyn 5A</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Cyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn raddol o un flwyddyn i'r llall, gan ddechrau gyda Blwyddyn Derbyn ym mis Medi 2022</li> <li>- Yn y pen draw, byddai holl ddisgyblion yr ysgol yn derbyn darpariaeth cyfrwng Cymraeg gan sicrhau bod y disgyblion i gyd yn rhugl yn Gymraeg a Saesneg</li> <li>- Byddai cymorth iaith Gymraeg ychwanegol yn cael ei gyflwyno ochr yn ochr ag unrhyw newid i'r categori iaith, e.e. Trochi, cymorth iaith Gymraeg ychwanegol</li> </ul>
<b>Opsiwyn 5B</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Cyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn raddol o yn flwyddyn i'r llall, gan ddechrau drwy uno'r Cyfnod Sylfaen ym mis Medi 2022</li> <li>- Yn y pen draw, byddai holl ddisgyblion yr ysgol yn derbyn darpariaeth cyfrwng Cymraeg gan sicrhau bod y disgyblion i gyd yn rhugl yn Gymraeg a Saesneg</li> <li>- Byddai cymorth iaith Gymraeg ychwanegol yn cael ei gyflwyno ochr yn ochr ag unrhyw newid i'r categori iaith, e.e. Trochi, cymorth iaith Gymraeg ychwanegol</li> </ul>
<b>Opsiwyn 5C</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Cyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn raddol o un flwyddyn i'r llall, gan ddechrau gyda Blwyddyn Derbyn a Blwyddyn 7 ym mis Medi 2022</li> <li>- Yn y pen draw, byddai holl ddisgyblion yr ysgol yn derbyn darpariaeth cyfrwng Cymraeg gan sicrhau bod y disgyblion i gyd yn rhugl yn Gymraeg a Saesneg</li> <li>- Byddai cymorth iaith Gymraeg ychwanegol yn cael ei gyflwyno ochr yn ochr ag unrhyw newid i'r categori iaith, e.e. Trochi, cymorth iaith Gymraeg ychwanegol</li> </ul>
<b>Opsiwyn 5D</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Cyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn raddol o un flwyddyn i'r llall, gan ddechrau drwy uno'r Cyfnod Sylfaen a Blwyddyn 7 ym mis Medi 2022</li> <li>- Yn y pen draw, byddai holl ddisgyblion yr ysgol yn derbyn darpariaeth cyfrwng Cymraeg gan sicrhau bod y disgyblion i gyd yn rhugl yn Gymraeg a Saesneg</li> <li>- Byddai cymorth iaith Gymraeg ychwanegol yn cael ei gyflwyno ochr yn ochr ag unrhyw newid i'r categori iaith, e.e. Trochi, cymorth iaith Gymraeg ychwanegol</li> </ul>

<p><b>Opsiwn 5E</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Cyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn raddol o un flwyddyn i'r llall, gan ddechrau gyda Blwyddyn Derbyn. Uno'r dosbarthiadau uwchradd i greu dosbarthiadau dwyieithog (cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg) hyd nes y byddent yn dod yn ddosbarthiadau cyfrwng Cymraeg. I ddechrau ym mis Medi 2022</li> <li>- Yn y pen draw, byddai holl ddisgyblion yr ysgol yn derbyn darpariaeth cyfrwng Cymraeg gan sicrhau bod y disgyblion i gyd yn rhugl yn Gymraeg a Saesneg</li> <li>- Byddai cymorth iaith Gymraeg ychwanegol yn cael ei gyflwyno ochr yn ochr ag unrhyw newid i'r categori iaith, e.e. Trochi, cymorth iaith Gymraeg ychwanegol</li> </ul>
<p><b>Opsiwn 5F</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Cyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn raddol o un flwyddyn i'r llall, gan ddechrau drwy uno'r Cyfnod Sylfaen. Uno'r dosbarthiadau uwchradd i greu rhai dwyieithog (cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg) hyd nes iddynt ddod yn gyfrwng Cymraeg. I ddechrau mis Medi 2022</li> <li>- Yn y pen draw, byddai holl ddisgyblion yr ysgol yn derbyn darpariaeth cyfrwng Cymraeg gan sicrhau bod y disgyblion i gyd yn rhugl yn Gymraeg a Saesneg</li> <li>- Byddai cymorth iaith Gymraeg ychwanegol yn cael ei gyflwyno ochr yn ochr ag unrhyw newid i'r categori iaith, e.e. Trochi, cymorth iaith Gymraeg ychwanegol</li> </ul>

Mae dadansoddiadau SWOT hefyd wedi eu gwneud ar bob un o'r opsiynau hyn. Yn ogystal, aseswyd yr opsiynau yn erbyn nifer o ffactorau hanfodol i lwyddiant. Mae'r rhain i'w cael yn Atodiad C y ddogfen hon.

Ar sail y dadansoddiadau SWOT a'r asesiad yn erbyn y ffactorau hanfodol i lwyddiant, mae'r opsiwn gweithredu a ffafrir fel a ganlyn:

**Opsiwn 5A:**

- Cyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn raddol o un flwyddyn i'r llall, gan ddechrau gyda Blwyddyn Derbyn ym mis Medi 2022
- Yn y pen draw, byddai holl ddisgyblion yr ysgol yn derbyn darpariaeth cyfrwng Cymraeg gan sicrhau bod y disgyblion i gyd yn rhugl yn Gymraeg a Saesneg
- Byddai cymorth iaith Gymraeg ychwanegol yn cael ei gyflwyno ochr yn ochr ag unrhyw newid i'r categori iaith, e.e. Trochi, cymorth iaith Gymraeg ychwanegol

Y rhesymau am hyn yw:

- Bron ddim effaith ar y disgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Saesneg yn yr ysgol ar hyn o bryd – byddai'r ddarpariaeth yn parhau tan y byddent wedi gadael yr ysgol
- Yn y tymor hir, byddai'r ysgol yn gallu gweithredu'n fwy effeithlon
- Byddai arweinyddiaeth yr ysgol yn gallu gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau dynol



- Byddai staff yn gallu canolbwyntio ar un model darparu ieithyddol
- Byddai'n rhoi amser ar gyfer unrhyw ddatblygiad staff a dysgu proffesiynol angenrheidiol
- Gellid cynnig mwy o gyfleoedd drwy gyfrwng y Gymraeg
- Byddai mwy o ddisgyblion yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg
- Mae'n cwrdd â Strategaeth y Cyngor ar gyfer Trawsnewid Addysg ym Mhowys
- Arbedion ariannol posib i'r awdurdod
- Cyfle i gynnig darpariaeth ategol i gynorthwyo'r newid i'r categori iaith, e.e. Trochi, cymorth iaith Gymraeg

## **8. ADNABOD OPSIWN A FFAFRIR**

Ar sail yr opsiwn a ffafir a ddisgrifir yn adran 6 uchod, a'r opsiwn gweithredu a ffafir a ddisgrifir yn adran 7, yr opsiwn a ffafir ar gyfer Ysgol Bro Hyddgen yw:

### **Cynorthwyo'r ysgol i symud ar hyd y continwmm iaith Gymraeg dros amser**

- Cyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn raddol o un flwyddyn i'r llall, gan ddechrau gyda Blwyddyn Derbyn ym mis Medi 2022
- Yn y pen draw, byddai holl ddisgyblion yr ysgol yn derbyn darpariaeth cyfrwng Cymraeg gan sicrhau bod y disgyblion i gyd yn rhugl yn Gymraeg a Saesneg
- Byddai cymorth iaith Gymraeg ychwanegol yn cael ei gyflwyno ochr yn ochr ag unrhyw newid i'r categori iaith, e.e. Trochi, cymorth iaith Gymraeg ychwanegol

Er mwyn symud ymlaen gyda'r opsiwn a ffafir hwn, mae'r Cyngor yn ymgynghori ar y cynnig canlynol:

- Gwneud addasiadau rheoledig i newid cyfrwng yr addysg yn Ysgol Bro Hyddgen i fod yn gyfrwng Cymraeg.
- Byddai hyn yn cael ei gyflwyno'n raddol o un flwyddyn i'r llall gan ddechrau gyda Blwyddyn Derbyn ym Medi 2022.

Trafodir y cynnig hwn ymhellach yn yr adran nesaf.

## **RHAN B – Y CYNNIG**

### **9. TROSOLWG**

Mae Cyngor Sir Powys yn ymgynghori ar gynnig i symud Ysgol Bro Hyddgen ar hyd y continwmm iaith. Mae'r cynnig fel a ganlyn:

- Gwneud addasiadau rheoledig i newid cyfrwng yr addysg yn Ysgol Bro Hyddgen i fod yn gyfrwng Cymraeg.
- Byddai hyn yn cael ei gyflwyno'n raddol o un flwyddyn i'r llall gan ddechrau gyda Blwyddyn Derbyn ym Medi 2022.

Byddai hyn yn golygu:

- Cyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn raddol o un flwyddyn i'r llall, gan ddechrau gyda Blwyddyn Derbyn ym mis Medi 2022
- Yn y pen draw, byddai holl ddisgyblion yr ysgol yn derbyn darpariaeth cyfrwng Cymraeg gan sicrhau bod y disgyblion i gyd yn rhugl yn Gymraeg a Saesneg
- Byddai cymorth iaith Gymraeg ychwanegol yn cael ei gyflwyno ochr yn ochr ag unrhyw newid i'r categori iaith, e.e. Trochi, cymorth iaith Gymraeg ychwanegol

### **10. RHESYMAU AM Y CYNNIG**

Yn ogystal â'r cryfderau a'r cyfleoedd a ddisgrifir yn adran 6 uchod, mae'r Cyngor yn cynnig symud Ysgol Bro Hyddgen ar hyd y continwmm iaith am y rhesymau canlynol:

- Er mwyn gwella canlyniadau addysgol
  - Ni fyddai plant yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau ieithoedd cymysg yn yr uwchradd mwyach
  - Ni fyddai plant yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau oed cymysg yn y cynradd mwyach
  - Byddai mwy o ddisgyblion yn rhugl ac yn hyderus mewn defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal
- Er mwyn gwella'r ddarpariaeth addysgol
  - Bydd cyfleoedd i ddatblygu cwricwlwm ehangach i ateb anghenion y disgyblion
  - Byddai cael un ffrwd iaith yn ei gwneud yn haws olrhain a thargedu cynnydd a lles y disgyblion
- Er mwyn gwella arweinyddiaeth a rheolaeth
  - Gallai tîm rheoli'r ysgol weithio'n fwy effeithlon

- Er mwyn darparu'r addysg yn fwy effeithlon
  - Gallai'r ysgol weithredu'n fwy effeithlon drwy wneud defnydd mwy effeithlon o staff ac adnoddau
- Er mwyn cynyddu nifer y disgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg
  - Byddai mwy o ddisgyblion yn rhugl yn Gymraeg ac yn Saesneg gan felly gyfrannu at nod Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn y flwyddyn 2050.

## 11. MANTEISION AC ANFANTEISION

Crynoir isod fanteision ac anfanteision y cynnig presennol ar gyfer Ysgol Bro Hyddgen:

Manteision	Anfanteision
<ul style="list-style-type: none"> <li>- Bron ddim effaith ar y disgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Saesneg yn yr ysgol ar hyn o bryd – byddai'r ddarpariaeth yn parhau tan y byddent wedi gadael yr ysgol</li> <li>- Yn y tymor hir, byddai'r ysgol yn gallu gweithredu'n fwy effeithlon</li> <li>- Byddai arweinyddiaeth yr ysgol yn gallu gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau dynol</li> <li>- Byddai staff yn gallu canolbwyntio ar un model darparu ieithyddol</li> <li>- Byddai'n rhoi amser ar gyfer unrhyw ddatblygiad staff a dysgu proffesiynol angenrheidiol</li> <li>- Gellid cynnig mwy o gyfleoedd drwy gyfrwng y Gymraeg</li> <li>- Byddai mwy o ddisgyblion yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg</li> <li>- Mae'n cwrdd â Strategaeth y Cyngor ar gyfer Trawsnewid Addysg ym Mhowys</li> <li>- Arbedion ariannol posib i'r awdurdod</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Effaith bosib ar nifer y disgyblion yn Ysgol Bro Hyddgen yn y tymor hir – efallai na allai'r ysgol wedyn ddenu disgyblion o'r tu allan i'r sir a fyddai eisiau derbyn darpariaeth cyfrwng Saesneg</li> <li>- Effaith bosib yn y tymor hir ar staff nad ydynt yn siarad Cymraeg</li> <li>- Gallai fod yn amhoblogaidd gyda rhai aelodau o'r gymuned leol</li> <li>- Cyfnod pontio hir ar gyfer yr ysgol</li> </ul>

## 12. RISGIAU

Fel gyda phob cynnig ad-drefnu ysgol, mae risgiau'n gysylltiedig â'r cynnig i symud Ysgol Bro Hyddgen ar hyd y continwmm iaith.

Disgrifir y risgiau hyn isod ynghyd â chamau lliniaru posib:

Risg	Sgôr risg cynhenid	Camau lliniaru	Sgôr risg gweddilliol
Ni fyddai rhieni eisiau anfon eu plant i ysgol cyfrwng Cymraeg gan ddewis eu symud i ysgolion eraill	Canolig	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Bydd y newid yn cael ei gyflwyno'n raddol i leihau'r effaith ar y disgyblion presennol</li> <li>- Byddwn yn ymgysylltu gyda rhieni drwy gydol y broses</li> </ul>	Isel
Rhieni'n dewis anfon eu plant i ysgolion eraill yn y dyfodol, gan effeithio ar gyllideb yr ysgol a chynyddu nifer y lleoedd gwag	Canolig	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Ymgyrch hyrwyddo i helpu rhieni i ddeall manteision addysg ddwyieithog a'r cymorth a fyddai ar gael iddynt, e.e. Trochi</li> </ul>	Isel
Newidiadau eraill o ganlyniad i ddatblygiadau eraill y Cyngor, e.e. trawsnewid AAA, trawsnewid addysg ôl-16	Canolig	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Diweddarau'r ysgol yn rheolaidd ar unrhyw ddatblygiadau</li> </ul>	Isel

### 13. AMSERLEN WEITHREDU BOSIB

Pe bai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen gyda'r cynigion, byddai'r amserlen weithredu bosib fel a ganlyn:

Ymgynghori ffurfiol	I redeg rhwng 8 Rhagfyr 2020 a'r 26 Ionawr 2021
Adroddiad ymgynghori'n cael ei gyhoeddi a'i ystyried gan y Cabinet	Gwanwyn 2021

#### Os bydd y Cabinet yn penderfynu symud ymlaen:

Cyhoeddi Hysbysiad Statudol (cyfnod o 28 diwrnod i wrthwynebu)	Mai 2021
Adroddiad ar y gwrthwynebiadau'n cael ei gyhoeddi a'i ystyried gan y Cabinet	Gorffennaf 2021

#### Os yw'r Cabinet yn cymeradwyo gweithredu'r cynnig:

Dechrau dileu'r ffrwd Saesneg yn raddol o un flwyddyn i'r llall, gan ddechrau gyda Blwyddyn Derbyn	Medi 2022
--	-----------

## **RHAN C – EFFAITH DEBYGOL Y CYNNIG**

### **14. EFFAITH AR DDISGYBLION**

#### **i) Disgyblion sy'n mynychu Ysgol Bro Hyddgen ar hyn o bryd**

Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai categori iaith newydd yr ysgol yn cael ei gyflwyno'n raddol gan ddechrau gyda Blwyddyn Derbyn ym mis Medi 2022. Byddai'r holl ddisgyblion sy'n derbyn darpariaeth cyfrwng Saesneg yn Ysgol Bro Hyddgen ar hyn o bryd yn gallu parhau i dderbyn y ddarpariaeth hon tan iddynt adael yr ysgol. Felly disgwylir y byddai bron ddim effaith ar y disgyblion sy'n mynychu Ysgol Bro Hyddgen ar hyn o bryd.

#### **ii) Disgyblion sy'n mynychu ysgolion cynradd eraill yn nalgylch Machynlleth**

Ni ddisgwylir y byddai gweithredu'r cynnig yn cael effaith sylweddol ar ddisgyblion sy'n mynd i ysgolion cynradd eraill yn nalgylch Machynlleth. Byddai'r disgyblion yn parhau i fod yn gallu gwneud cais am le yn Ysgol Bro Hyddgen wrth drosglwyddo i flwyddyn 7.

Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, o fis Medi 2029 ymlaen byddai holl ddisgyblion blwyddyn 7 Ysgol Bro Hyddgen yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, mae'r holl ysgolion cynradd eraill yn nalgylch Machynlleth yn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg, felly byddai gan y disgyblion i gyd y sgiliau iaith Gymraeg angenrheidiol i gael mynediad at ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg.

O fis Medi 2029 ymlaen, byddai angen i unrhyw ddisgyblion a fyddai eisiau derbyn darpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg fynychu ysgolion eraill.

#### **iii) Disgyblion sy'n mynychu ysgolion cynradd neu uwchradd y tu allan i ddalgylch Machynlleth**

Ni ddisgwylir y byddai gweithredu'r cynnig yn cael effaith sylweddol ar ddisgyblion sy'n mynd i ysgolion cynradd neu uwchradd y tu allan i ddalgylch Machynlleth.

Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, o fis Medi 2029 ymlaen byddai holl ddisgyblion blwyddyn 7 Ysgol Bro Hyddgen yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Ni fyddai disgyblion o ysgolion cynradd y tu allan i ddalgylch Machynlleth a fyddai eisiau derbyn darpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg yn Ysgol Bro Hyddgen yn gallu gwneud hynny wedyn – byddai angen iddynt fynychu ysgolion eraill.

### **15. EFFAITH AR STAFF**

Mae bron yr holl staff yn Ysgol Bro Hyddgen yn gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Er bod nifer fach o staff yn Ysgol Bro Hyddgen nad ydynt yn gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg, byddai cyflwyniad graddol y model newydd o ddarparu ieithyddol yn rhoi cyfle i'r staff hyn wella a datblygu eu sgiliau iaith Gymraeg.

## **16. EFFAITH AR DREFNIADAU LLYWODRAETHU**

Ni fyddai gweithredu'r cynnig yn arwain at newid y trefniadau llywodraethu yn yr ysgol.

## **17. EFFAITH AR ANSAWDD A SAFONAU MEWN ADDYSG**

### **i) Safonau, lles ac agweddau at ddysgu**

#### **Safonau a chynnydd grwpiau penodol, a sgiliau, yn gyffredinol**

Drwy newid categori iaith yr ysgol, byddai'r Cyngor yn disgwyl gweld effaith gadarnhaol ar safonau a'r ddarpariaeth, ac ar gynnydd disgyblion yn gyffredinol. Oherwydd y byddai'r newid yn digwydd yn raddol, byddai'r Cyngor yn disgwyl i ddefnydd mwy effeithiol ac effeithlon gael ei wneud o adnoddau oherwydd ni fyddai angen i'r ysgol ddyblygu'r ddarpariaeth addysgol mwyach a hynny, yn ei dro, yn arwain at gyfleoedd gwell i ddysgwyr o bob oed.

Disgwylir y byddai newid categori iaith yr ysgol yn cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth, safonau a chynnydd y disgyblion i gyd, gan gynnwys disgyblion mewn grwpiau penodol fel Saesneg fel iaith Ychwanegol, rhai sy'n gymwys i dderbyn Prydau Ysgol Am Ddim, plant mewn gofal, a phlant gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Byddai un continwwm dysgu cyfrwng Cymraeg yn cael ei weithredu ar draws yr holl grwpiau oed gan olygu y byddai'n bosib monitro a chefnogi cynnydd llythrennedd disgyblion yn fwy effeithiol drwy gydol eu gyrfaoedd ysgol. Byddai hyn o fudd arbennig i ddisgyblion mewn grwpiau penodol fel y rhai uchod. Byddai cyfleoedd gwell i'r holl staff gael gweithio'n fwy cydweithredol ac i rannu arferion gorau ac arbenigedd, gan sicrhau y gellir eu cefnogi'n fwy effeithiol drwy gydol eu hamser yn yr ysgol.

Disgwylir hefyd y byddai newid categori iaith yr ysgol yn cael effaith gadarnhaol ar sgiliau'r holl ddisgyblion, yn enwedig sgiliau iaith Gymraeg, oherwydd gallai'r disgyblion wedyn ddod yn gwbl ddwyieithog mewn Cymraeg a Saesneg. Byddai gweithredu fel ysgol un ffrwd yn cynorthwyo'r ysgol i dargedu ei chymorth yn fwy effeithiol ar draws yr holl gyfnodau addysg.

#### **Lles ac agweddau at ddysgu**

Drwy newid categori iaith yr ysgol, yn y pen draw byddai'r disgyblion i gyd yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg llawn. Byddai'r disgyblion i gyd yn cael eu haddysgu gyda'i gilydd gan sicrhau cydlyniant gwell ar draws yr ysgol a chael effaith dda ar les plant.

Yn y sector uwchradd, mae nifer o ddsbarthiadau'n cael eu haddysgu'n ddwyieithog, yn defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg. Drwy gynorthwyo'r ysgol i symud ar hyd y continwmm iaith, yn y pen draw byddai'r disgyblion i gyd yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg llawn gan osgoi'r angen i athrawon orfod addysgu yn y ddwy iaith ar yr un pryd.

O ganlyniad, byddai'r gwersi'n cael eu darparu'n gynt heb fod angen ailadrodd yn Gymraeg a Saesneg. Dylai hyn wella agwedd y disgyblion at ddysgu a byddai hefyd yn cael effaith dda ar eu lles.

## **ii) Profiadau addysgu a dysgu**

### **Ansawdd yr addysgu**

Byddai'r Cyngor yn disgwyl, drwy newid categori iaith yr ysgol, y byddai ansawdd yr addysgu yn Ysgol Bro Hyddgen yn gwella oherwydd y cyfleoedd datblygu a chydweithredu proffesiynol cyfrwng Cymraeg gwell a fyddai ar gael i'r staff, er enghraifft cydweithredu ag ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill mewn awdurdodau lleol a rhanbarthau addysgol eraill i rannu arferion gorau mewn addysgeg.

Gallai hefyd gynorthwyo athrawon i adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau disgyblion a chynnig ystod eang o brofiadau addas i ddisgyblion i ennyn eu diddordeb a gwella eu sgiliau llythrennedd mewn amrywiaeth o bynciau a meysydd dysgu.

Byddai'r newid sydd mewn golwg yn cynorthwyo athrawon i ganolbwyntio ar ddarparu'r addysg mewn un cyfrwng iaith a hefyd yn golygu na fyddai angen addysgu gwersi uwchradd yn ddwyieithog, yn defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg. O ganlyniad byddai gwersi'n llifo'n fwy rhwydd heb fod angen ailadrodd pethau yn y ddwy iaith, a hefyd yn rhoi mwy o amser yn y gwersi.

### **Hyd a lled, cydbwysedd a phriodoldeb y cwricwlwm**

Disgwylir y byddai newid categori iaith yr ysgol yn cael effaith gadarnhaol ar hyd a lled, cydbwysedd a phriodoldeb y cwricwlwm yn yr ysgol. Pe bai'n cael ei weithredu, ni fyddai angen i'r ysgol mwyach ddyblygu unrhyw ddarpariaeth a dylai hyn gael effaith gryfhaol ar y cwricwlwm y byddai'n bosib ei ddarparu, gan sicrhau bod y cwricwlwm yn ateb gofynion y cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru, fel y disgrifiwyd yn 'Ein Cenhadaeth Genedlaethol'.

### **Darparu sgiliau**

Drwy newid categori iaith yr ysgol, byddai disgwyl i hyn gael effaith gadarnhaol ar sgiliau llythrennedd y disgyblion i gyd drwy greu cyfleoedd gwell i rannu adnoddau ac arbenigedd staff ar draws yr holl grwpiau oed, a thrwy fod yn gallu targedu ar draws yr holl gyfnodau addysg.

Yn benodol, byddai'r newid yn cael effaith gadarnhaol ar sgiliau iaith Gymraeg oherwydd byddai'r disgyblion i gyd yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg gan ddod yn ddwyieithog mewn Cymraeg a Saesneg. Gallai'r ysgol hefyd ei sgiliau iaith Gymraeg mewn gweithgareddau addysgu ffurfiol, a hefyd mewn sefyllfaoedd anffurfiol.

### **iii) Gofal, cymorth ac arweiniad**

#### **Olrhain, monitro a darparu cymorth dysgu, datblygiad personol a diogelu**

Drwy weithredu fel un ffrwd ieithyddol, gallai'r ysgol olrhain a monitro ei disgyblion yn well drwy gydol eu gyrfaoedd ysgol.

Drwy newid categori iaith yr ysgol, byddai'r Cyngor yn disgwyl y gallai'r ysgol wella ei darpariaeth ymhellach er mwyn paratoi ei disgyblion, gan gynnwys rhai ag anghenion addysgol arbennig, i ddod yn ddinasyddion gweithgar, er enghraifft drwy wneud penderfyniadau am fywyd a gwaith yr ysgol.

Byddai hefyd yn cynorthwyo i gryfhau darpariaeth yr ysgol i helpu'r disgyblion i wella eu dealltwriaeth o'r iaith Gymraeg a'i diwylliant, y gymuned leol a'r byd ehangach.

### **iv) Arweinyddiaeth a rheolaeth**

#### **Ansawdd ac effeithiolrwydd yr arweinwyr a'r rheolwyr, y prosesau hunan-werthuso a'r cynlluniau gwella**

Drwy newid categori iaith yr ysgol, disgwylir y byddai hynny'n arwain at wella'r arweinyddiaeth a'r ochr reoli yn yr ysgol. Byddai'r newid sydd mewn golwg yn helpu'r ysgol i sefydlu rhesymeg glir a strategol ar gyfer y cwricwlwm, o ran ei fanteision i blant yn eu paratoi i ddysgu drwy gydol eu bywydau a chwarae rhan lawn mewn cymdeithas. Byddai hefyd yn cynorthwyo arweinwyr a rheolwyr i fod yn fwy pwrpasol a llwyddiannus yn cwrdd â'r flaenoriaeth genedlaethol o ddarparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion gael datblygu eu sgiliau iaith Gymraeg, mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol.

Gan weithredu fel ysgol un ffrwd, gallai Ysgol Bro Hyddgen redeg yn fwy effeithlon a byddai gan arweinwyr a rheolwyr fwy o amser i ganolbwyntio ar ddatblygu darpariaeth effeithiol ar draws yr ysgol.

#### **Dysgu proffesiynol**



Gallai newid cyfrwng iaith yr ysgol gynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol gwell i staff drwy greu mwy o gyfle i gydweithredu ag ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill ar draws Cymru.

### **Defnydd o adnoddau**

Pe bai'r newid yn cael ei weithredu, byddai'r ysgol yn y pen draw'n dod yn ysgol cyfrwng Cymraeg un ffrwd ac yn cael ei hariannu ar sail hynny. Fel ysgol cyfrwng Cymraeg, byddai'r ysgol yn gallu gweithredu'n fwy effeithlon oherwydd ni fyddai angen dyblygu'r ddarpariaeth.

#### **v) Effaith ar grwpiau bregus, gan gynnwys plant ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)**

Byddai ysgol pob oed cyfrwng Cymraeg yn rhoi cyfleoedd gwell i gynorthwyo disgyblion mewn grwpiau bregus. Byddai cyfleoedd gwell i roi cymorth i ddisgyblion ar draws y blynyddoedd cynradd gan roi parhad i'r cymorth a fyddai'n cael ei roi i ddisgyblion bregus. Fodd bynnag, gallai fod effaith negyddol ar ddisgyblion gydag ADY sy'n dod o deuluoedd cyfrwng Saesneg yn bennaf, a fyddai angen lefel uwch o gymorth gan yr ysgol i ateb anghenion y disgyblion hyn.

#### **vi) Effaith ar allu'r ysgol i ddarparu'r cwricwlwm llawn yn y Cyfnod Sylfaen ac ym mhob Cyfnod Allweddol, gan gynnwys ansawdd darparu'r cwricwlwm ac i ba raddau y byddai strwythur neu faint yr ysgol yn effeithio ar hyn**

Disgwylir y byddai newid categori iaith yr ysgol yn cael effaith gadarnhaol ar ddarparu'r cwricwlwm llawn yn y Cyfnod Sylfaen ac ym mhob un o'r Cyfnodau Allweddol eraill, oherwydd ni fyddai mwyach angen dyblygu'r ddarpariaeth mewn dwy ffrwd ieithyddol.

Mae'n bosib y gallai fod rhai heriau dros y cyfnod pontio oherwydd byddai angen i'r ysgol ddarparu ar gyfer nifer lleihaol o ddisgyblion cyfrwng Saesneg. Fodd bynnag, pe bai'r categori iaith newydd yn cael ei weithredu, byddai'r Cyngor yn parhau i gynorthwyo'r ysgol drwy gydol y cyfnod pontio i sicrhau bod cwricwlwm priodol yn cael ei ddarparu i ddisgyblion ym mhob Cyfnod Allweddol.

#### **vii) Effaith ar ysgolion eraill**

Ni ddisgwylir y byddai gweithredu'r cynnig yn cael effaith sylweddol ar ysgolion eraill. Mae'n bosib y bydd rhai disgyblion yn dewis mynychu darparwyr cyfrwng Saesneg eraill yn lle'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Bro Hyddgen, felly gallai nifer y disgyblion yn yr ysgolion hyn gynyddu. Fodd bynnag, mae'r niferoedd hyn yn debygol o fod yn fach felly ni ragwelir y byddai'r effaith yn sylweddol.

**18. YR ANGEN AM LEOEDD YSGOL A'R EFFAITH AR ARGAELEDD LLEOEDD A HYGyrCHEDD YSGOLION**

- i) A fyddai'r ddarpariaeth newydd yn gallu cynnig digon o gapasiti a lle addysgu, o ansawdd cyfwerth o leiaf, ar gyfer nifer y disgyblion presennol a'r nifer disgwylidig?**

Nid ydym yn rhagweld y byddai'r opsiwn a ffafrir yn cael effaith sylweddol ar gapasiti'r ysgol na'r nifer disgwylidig o ddisgyblion.

Mae'n bosib y gallai newid categori iaith yr ysgol arwain at leihad yn nifer y disgyblion oherwydd na fyddai disgyblion o'r tu allan i'r sir sydd ar hyn o bryd yn derbyn addysg cyfrwng Saesneg yn yr ysgol mwyach yn dewis mynychu, neu oherwydd y byddai disgyblion o'r ardal leol yn dewis mynychu darparwyr cyfrwng Saesneg eraill.

Fodd bynnag, mae hefyd yn bosib y gallai newid categori iaith yr ysgol arwain at gynydd yn nifer y disgyblion dros y tymor hirach, wrth i ddisgyblion o ardaloedd eraill ddewis mynychu'r ysgol. Gallai hyn ddigwydd gyda'r ddarpariaeth uwchradd yn enwedig.

Ochr yn ochr ag ystyried categori iaith yr ysgol, mae cynlluniau ar droed i godi adeilad newydd ar gyfer Ysgol Bro Hyddgen. Disgwylir i'r adeilad newydd agor ym mis Medi 2024. Byddai hyn yn gwella ansawdd y lle addysgu yn yr ysgol yn sylweddol.

- ii) A fyddai'r ddarpariaeth newydd yn ddigonol i ateb y galw presennol a disgwylidig am ysgolion gyda'r un categori iaith a chymeriad crefyddol dynodedig?**

Y bwriad fyddai cyflwyno'r categori iaith newydd yn raddol, gan ddechrau gyda Blwyddyn Derbyn. Disgwylir felly y byddai disgyblion yn parhau i fynychu Ysgol Bro Hyddgen. Mae digon o gapasiti i ateb y galw presennol a disgwylidig am yr ysgol.

Nid oes gan yr ysgol gymeriad crefyddol – ni fyddai hyn yn newid pe bai unrhyw newid i gategory iaith yr ysgol.

- iii) Beth fydd natur y siwrneiau i gyrraedd y ddarpariaeth newydd a'r amseroedd siwrne o ganlyniad i ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion AAA?**

Byddai'r cynllun i gyflwyno'r newid graddol i gategory iaith yr ysgol yn golygu y byddai'r disgyblion i gyd yn gallu parhau i gael mynediad i'r ysgol, felly ni fyddai unrhyw effaith ar siwrneiau i'r ysgol nac ar amseroedd siwrne.

Os bydd disgyblion yn dewis mynychu darpariaeth cyfrwng Saesneg mewn manau eraill, byddai cynnydd mewn siwrneiau / amseroedd siwrne.

**iv) A oes tystiolaeth bod angen / galw presennol neu i'r dyfodol am leoedd ychwanegol yn yr ardal?**

Awgryma'r amcan-ffigurau disgyblion diweddaraf sydd gan y Cyngor bod cynnydd bach yn nifer y disgyblion i'w ragweld dros y blynyddoedd nesaf. Mae gan yr ysgol ddigon o gapasiti i dderbyn cynnydd yn nifer y disgyblion.

**v) A fydd y cynigion yn gwella mynediad i ddisgyblion anabl yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010?**

Ni fyddai unrhyw newid i categori iaith yr ysgol yn effeithio ar fynediad i ddisgyblion anabl yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010.

Ochr yn ochr ag ystyried categori iaith yr ysgol, mae cynlluniau ar droed i godi adeilad newydd ar gyfer Ysgol Bro Hyddgen. Disgwylir i'r adeilad hwn agor ym mis Medi 2024. Byddai hyn yn gwella mynediad i ddisgyblion anabl yn sylweddol, yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010.

## **19. ADNODDAU ADDYSG A GOBLYGIADAU ARIANNOL ERAILL**

**i) Pa effaith fydd y cynigion yn ei gael ar leoedd gwag yn yr ardal?**

Y bwriad yw cyflwyno'r newid yn raddol gan ddechrau gyda Blwyddyn Derbyn a symud drwy'r ysgol o un flwyddyn i'r llall wrth i'r disgyblion symud drwy'r ysgol. Y bwriad yw y byddai'r disgyblion presennol i gyd yn parhau i fynychu'r ysgol ac felly na ni ragwelir y byddai effaith ar leoedd gwag.

Mae'n bosib y gallai fod peth effaith ar nifer y disgyblion yn y tymor hir os bydd rhai disgyblion yn dewis darpariaeth cyfrwng Saesneg yn lle mynychu Ysgol Bro Hyddgen, fodd bynnag mae hefyd yn bosib y gallai rhai disgyblion ychwanegol ddewis mynychu'r ysgol o'r newydd, yn enwedig yn yr uwchradd, ar ôl gweithredu'r newid i gyfrwng iaith yr ysgol. Bydd nifer y disgyblion a chapasiti yn yr ysgol yn parhau i gael ei fonitro.

**ii) Ydy'r cynigion yn rhan o Raglen Buddsoddi Ysgolion 21<sup>ain</sup> Ganrif yr awdurdod lleol ac yn cyfrannu at ddarparu ysgolion cynaliadwy ar gyfer yr 21<sup>ain</sup> Ganrif ac at reoli'r ystâd ysgolion yn strategol ac yn well?**

Nid yw'r cynlluniau presennol ar gyfer categori iaith Ysgol Bro Hyddgen yn rhan o Raglen Buddsoddi Ysgolion 21<sup>ain</sup> Ganrif yr awdurdod lleol.

Fodd bynnag, ochr yn ochr ag ystyried categori iaith yr ysgol, mae cynlluniau ar droed i godi adeilad newydd ar gyfer Ysgol Bro Hyddgen fel rhan o'r Rhaglen Buddsoddi Ysgolion 21<sup>ain</sup> Ganrif. Disgwylir i'r adeilad hwn agor ym mis Medi 2024.

**iii) Beth yw costau rheolaidd y cynigion dros gyfnod o dair blynedd o leiaf ac a yw'r cyllid rheolaidd angenrheidiol ar gael?**

Nid oes unrhyw gostau rheolaidd yn gysylltiedig â newid categori iaith yr ysgol.

**iv) A achosir costau cludiant ychwanegol o ganlyniad i'r cynnig?**

Y bwriad yw cyflwyno'r categori iaith newydd yn raddol wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol. Nid ydym yn rhagweld yr achosir costau cludiant ychwanegol o ganlyniad i'r newid hwn.

**v) Beth yw costau cyfalaf y cynnig ac a yw'r cyllid cyfalaf angenrheidiol ar gael?**

Nid oes unrhyw gostau cyfalaf yn gysylltiedig â newid categori iaith Ysgol Bro Hyddgen.

**vi) Faint fyddai unrhyw arbedion net disgwylidig (gan ystyried costau refeniw, cludiant a chyfalaf yr ysgol)**

Amcangyfrifir y byddai newid categori iaith yr ysgol yn arwain at arbedion refeniw blynyddol o tua £184k y flwyddyn i'r Cyngor, unwaith y byddai'r ysgol yn ysgol un ffrwd drwyddi. Ni fyddai unrhyw arbedion yn y flwyddyn gyntaf, ac er y byddai cyfle i wneud arbedion wrth gyflwyno'r newid yn raddol, byddai hyn yn dibynnu ar nifer y disgyblion. Mae ysgol un ffrwd yn fwy effeithiol yn y sector uwchradd.

Ni ddisgwylir y byddai unrhyw effaith ar gostau cludiant ac ni fyddai unrhyw gostau cyfalaf.

**vii) Heb y cynigion, a fyddai cyllideb yr ysgolion yr effeithir arnynt mewn diffyg?**

Nid yw'r Cyngor yn rhagweld y bydd cyllideb Ysgol Bro Hyddgen mewn diffyg.

**viii) A fydd unrhyw arbedion o ran costau rheolaidd yn cael eu cadw yng nghyllideb ysgolion lleol yr awdurdod lleol?**

Byddai unrhyw arbedion yn cael eu hail-fuddsoddi yn y system ysgolion.

**ix) A fydd yr elw (derbyniadau cyfalaf) o werthu safleoedd segur ar gael i dalu am gostau'r cynnig, neu i gyfrannu at gostau cynigion yn y dyfodol ar gyfer hyrwyddo rheolaeth effeithiol o leoedd ysgol?**

Ni fydd newid categori iaith Ysgol Bro Hyddgen yn arwain at unrhyw dderbyniadau cyfalaf.

## **20. FFACTORAU I'W HYSTYRIED YNG NGHYSWLLT CYNIGION I NEWID CYFRWNG IAITH**

- i) I ba raddau y mae'r ddarpariaeth addysg bresennol gan yr Awdurdod Lleol drwy gyfrwng y Saesneg a / neu'r Gymraeg yn ateb neu ddim yn ateb y galw neu'r galw disgwylidig gan rieni am y math yma o ddarpariaeth, a'r cyfraniad y byddai'r cynnig yn ei wneud i gywiro'r sefyllfa honno**

Ar hyn o bryd nid oes gan Bowys unrhyw ddarpariaeth uwchradd gyfangwbl drwy gyfrwng Cymraeg. Yn y tymor hir, byddai gweithredu'r newid sydd mewn golwg i gategori iaith Ysgol Bro Hyddgen yn sicrhau bod y math yma o ddarpariaeth ar gael.

Byddai gweithredu'r newid sydd mewn golwg yn golygu na fyddai addysg drwy gyfrwng y Saesneg mwyach ar gael ym Machynlleth. Fodd bynnag, y duedd ym Machynlleth yw cynnydd yn y galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg felly mae'r newid sydd mewn golwg yn adlewyrchu hyn. Byddai'r newid sydd mewn golwg hefyd yn sicrhau bod yr holl ddisgyblion a fyddai'n mynychu Ysgol Bro Hyddgen yn gwbl ddwyieithog gan felly gyfrannu at nod Llywodraeth Cymru o weld miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Os na fyddai disgyblion eisiau derbyn ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Bro Hyddgen, mae darparwyr cyfrwng Saesneg eraill ar gael, ym Mhowys ei hun ac mewn awdurdodau cyfagos eraill.

- ii) I ba raddau y byddai'r cynnig yn cyfrannu at dargedau Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol**

Byddai newid categori iaith Ysgol Bro Hyddgen yn cynorthwyo'r awdurdod lleol i gwrdd â thargedau'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a hefyd i gwrdd ag amcan y Cyngor o 'symud ysgolion ar hyd y continwrm iaith' a ddisgrifir yn y Strategaeth ar gyfer Trawsnewid Addysg ym Mhowys.

## **21. EFFAITH AR Y DDARPARIAETH CHWECHED DOSBARTH**

- iii) A fydd y cynigion yn arwain at wella cyflawniad addysgol neu hyfforddiant disgyblion sydd dros yr oedran ysgol gorfodol ond o dan 19 oed**

Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai'r ddarpariaeth ôl-16 oed yn parhau i fod ar gael yn Ysgol Bro Hyddgen. Yn y pen draw, byddai'r ddarpariaeth yma ond ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, fodd bynnag ni fyddai hyn yn digwydd am nifer o flynyddoedd. Ni ddisgwylir i'r cynnig gael

effaith negyddol ar gyflawniad addysgol neu hyfforddiant disgyblion dros yr oedran ysgol gorfodol yn Ysgol Bro Hyddgen.

- iv) A fydd y cynigion yn cyfrannu at ystod briodol o gyrsiau a chymwysterau perthnasol a llwybrau dysgu galwedigaethol o safon uchel, wedi eu goleuo gan gyflogwyr ac wedi eu targedu at ddisgyblion o bob gallu, gan hefyd gynnal TGAU a lefel AS/A a chyrsiau sefydlog eraill, fel sy'n ofynnol o dan Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 ar gyfer dysgwyr 14-19 oed**

Drwy newid categori iaith yr ysgol, byddai'r ysgol yn gallu gweithredu'n fwy effeithlon oherwydd ni fyddai angen dyblygu'r ddarpariaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg. Yn y pen draw, disgwylir y byddai hyn yn golygu y gallai'r ysgol gynnig ystod ehangach o gyrsiau i ddisgyblion o bob gallu. Byddai'r newid hefyd yn cynorthwyo'r ysgol i ddatblygu trefniadau partneriaeth gwell â darparwyr cyfrwng Cymraeg eraill, gan wella'r cyfleoedd i ddysgwyr ymhellach.

- v) A fyddai'r cynigion yn debygol o arwain at gynyddu cyfranogiad mewn dysgu gan ddisgyblion dros yr oedran ysgol gorfodol, gan ystyried materion cludiant a'r gost i'r dysgwr ac eraill, pa mor fforddiadwy yw'r costau hyn a pha mor debygol y bydd dysgwyr o fod yn barod i deithio**

Byddai newid y categori iaith yn Ysgol Bro Hyddgen yn parhau i gynnig mynediad at addysg ar ôl yr oedran ysgol gorfodol ym Machynlleth, felly ni fyddai unrhyw effaith ar gludiant na chost i'r dysgwr.

Ni ddisgwylir y byddai unrhyw effaith sylweddol ar gyfranogi mewn dysgu gan ddisgyblion dros yr oedran ysgol gorfodol. Yn y tymor hirach, byddai newid categori iaith yr ysgol i fod yn gyfrwng Cymraeg hefyd yn cynorthwyo'r ysgol i ddatblygu trefniadau partneriaeth gwell â darparwyr cyfrwng Cymraeg eraill, gan wella'r cyfleoedd i ddysgwyr ymhellach ac efallai arwain at gynyddu cyfranogiad mewn dysgu gan ddisgyblion dros yr oedran ysgol gorfodol.

- vi) I ba raddau y mae'r cynigion yn cyfrannu at yr agenda 14-19 ar ôl ystyried barn y rhwydweithiau 14-19 rhanbarthol**

Yn y tymor byr ni ddisgwylir y byddai categori iaith newydd yr ysgol yn effeithio ar ystod y cyrsiau a'r cymwysterau perthnasol a fyddai ar gael. Fodd bynnag, byddai'r newid yn golygu y gallai'r ysgol weithredu'n fwy effeithlon oherwydd ni fyddai angen dyblygu'r ddarpariaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg. Yn y pen draw, disgwylir y byddai hyn yn golygu y gallai'r ysgol gynnig ystod ehangach o gyrsiau i ddisgyblion o bob gallu.

Yn y tymor hirach, byddai newid categori iaith yr ysgol i fod yn gyfrwng Cymraeg hefyd yn cynorthwyo'r ysgol i ddatblygu trefniadau partneriaeth

gwell â darparwyr cyfrwng Cymraeg eraill, gan wella'r cyfleoedd a fyddai ar gael i ddysgwyr ymhellach.

**vii) Effaith y cynigion ar y ddarpariaeth 11-16 mewn ysgolion**

Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai darpariaeth yn parhau i fod ar gael i ddisgyblion 11-16 oed drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai hyn yn cael ei gyflwyno'n raddol, felly'r bwriad yw y byddai gan holl ddisgyblion yr ardal a fyddai wedi mynychu darpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg yn y gorffennol y sgiliau dwyieithog angenrheidiol i dderbyn y ddarpariaeth hon.

Byddai gweithredu fel ysgol un ffrwd yn cynorthwyo'r ysgol i weithredu'n fwy effeithlon oherwydd ni fyddai angen dyblygu'r ddarpariaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg. Disgwylir y byddai hyn yn cryfhau'r ddarpariaeth a'r gwaith o ddarparu'r Cwricwlwm i Gymru ar gyfer disgyblion 11-16 oed, drwy gynorthwyo'r ysgol i ganolbwyntio ar ddarparu addysg drwy un cyfrwng ieithyddol. Gallai hyn gael effaith gadarnhaol ar ystod y cyrsiau a fyddai ar gael i ddisgyblion.

**viii) Sut y byddai'r cynigion yn effeithio ar hyfywedd sefydliadau sydd eisoes yn darparu addysg ôl-16 o safon uchel, gan gynnwys dosbarthiadau'r chweched, Sefydliadau Addysg Bellach a sefydliadau hyfforddiant preifat**

Byddai darpariaeth ôl-16 oed yn parhau i fod ar gael yn Ysgol Bro Hyddgen. Ni ddisgwylir y byddai'r cynnig yn effeithio ar hyfywedd darpariaeth Ysgol Bro Hyddgen na darparwyr eraill.

**ix) Sut y gallai'r cynigion effeithio ar gynaliadwyedd neu ar wella'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn rhwydwaith 14-19 y rhanbarth ac yn yr ardal ehangach a hyrwyddo mynediad at gyrsiau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael mewn addysg ôl-16**

Disgwylir yn y pen draw y bydd newid categori iaith Ysgol Bro Hyddgen yn gwella'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a fyddai ar gael i ddisgyblion 14-19 oed yn yr ysgol. Byddai'r newid sydd mewn golwg yn cynorthwyo'r ysgol i weithredu'n fwy effeithiol a chynnig ystod ehangach o gyrsiau.

Byddai gan ddysgwyr fynediad o hyd at yr un ystod o leiaf o gyrsiau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael ar hyn o bryd yn Ysgol Bro Hyddgen a thrwy Lwybrau Dysgu Gogledd Powys, yn unol â gofynion Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009.

**x) I ba raddau fydd y cynnig yn darparu manteision ychwanegol i ddysgwyr o'i gymharu â chadw pethau fel y maen nhw ac opsiynau posib eraill ar gyfer ad-drefnu addysg ôl-16 oed**

Byddai'r newidiadau sydd mewn golwg yn rhoi cyfle gwell i ddisgyblion ddatblygu sgiliau dwyieithog yn Gymraeg a Saesneg, gan ddarparu'r sgiliau iaith Gymraeg i'w cynorthwyo yn eu gyrfaoedd yn y dyfodol.

- xi) **Sut y gallai'r cynnig effeithio ar ddarparu unrhyw gludiant disgrisiwn y gallai awdurdod lleol ei ddarparu i ddysgwyr dros yr oedran ysgol gorfodol**

Ni fyddai newid y categori iaith yn Ysgol Bro Hyddgen yn effeithio ar ddarparu cludiant disgrisiwn i ddysgwyr dros yr oedran ysgol gorfodol.

## 22. YSTYRIAETHAU ERAILL

- i) **Effaith ar gyflawniad addysgol plant o gefndiroedd economaidd difreintiedig**

Rhagwelir y byddaia newid categori iaith yr ysgol yn cael ei effaith gadarnhaol ar gyflawniad addysgol plant o gefndiroedd economaidd difreintiedig. Byddai disgyblion o bob cefndir economaidd yn gallu manteisio ar gwricwlwm cyfrwng Cymraeg o ddechrau eu haddysg, gan sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn dod yn ddwyieithog.

- ii) **Tir ac Adeiladau**

**Cymharu ansawdd y lle addysgu yn yr ysgol y byddai disgyblion yn cael eu trosglwyddo ohoni**

Oherwydd bod y cynnig yn ymwneud â newid categori iaith, ni fyddai unrhyw effaith ar ansawdd y lle addysgu i ddisgyblion.

**Gwybodaeth am unrhyw waith adeiladu y byddai ei angen i sicrhau bod gan yr ysgol le i addysgu plant wrth drosglwyddo**

Ni fyddai angen unrhyw waith adeiladu er mwyn gallu symud ymlaen gyda'r cynnig.

**Manylion unrhyw dir neu adeiladau a allai fod angen eu trosglwyddo neu werthu o ganlyniad i'r cynigion**

Ni fyddai angen trosglwyddo na gwerthu tir.

**A yw'r ysgol / ysgolion yn destun unrhyw fudd ymddiriedolaethol neu elusennol y gallai'r cynigion effeithio arnynt, er enghraifft o ran defnyddio neu werthu tir?**

Nid yw Ysgol Bro Hyddgen yn destun unrhyw fudd ymddiriedolaethol neu elusennol y gallai gweithredu'r cynnig effeithio arnynt.

- iii) **Llwybrau cerdded i'r ysgol**



Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai'r llwybrau cerdded i'r ysgol yr un fath â'r llwybrau cerdded presennol i Ysgol Bro Hyddgen.

**iv) Derby'n plant i'r ysgol**

Y Cyngor sy'n gweinyddu'r broses o dderbyn plant i Ysgol Bro Hyddgen. Pe bai'r cynnig presennol yn cael ei weithredu, byddai'r broses o dderbyn plant i'r ysgol yn parhau i gael ei gweinyddu gan y Cyngor yn unol â Pholisi Derby'n y Cyngor, sydd ar gael ar-lein yn:

<https://cy.powys.gov.uk/article/7627/Gwneud-Cais-am-Le-Mewn-Ysgol>

Byddai angen i ddisgyblion newydd a fyddai eisiau mynychu'r ysgol wneud cais am le o dan drefniadau derby'n y Cyngor.

**v) Y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg**

Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP yn Saesneg) ar gyfer 2017-20 yn disgrifio nod y Cyngor o ddarparu darpariaeth gyfartal i ddysgwyr cyfrwng Cymraeg ym Mhowys.

Byddai gweithredu'r cynnig yn sicrhau y byddai gan holl ddisgyblion Machynlleth fynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy gydol eu hamser yn yr ysgol a'u bod yn datblygu sgiliau dwyieithog yn Gymraeg a Saesneg. Byddai hyn yn arwain at gynnydd yn nifer y disgyblion yn derby'n addysg cyfrwng Cymraeg gan felly gyfrannu at darged y Cyngor o gynyddu nifer y disgyblion sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg a nod Llywodraeth Cymru o weld miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Yn dilyn gweithredu'r cynnig yn llawn, byddai cyfleoedd cyfrwng Cymraeg gwell i ddysgwyr o fynychu ysgol gyfangwbl cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys cyfleoedd gwell i ddisgyblion gael defnyddio'r Gymraeg ar draws yr ysgol.

**23. ASESIAU O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB, Y GYMUNED AC AR Y GYMRAEG**

Mae asesiadau effaith drafft wedi eu cyflawni yng nghyswllt y cynnig. Bwriedir diweddarau'r rhain yn dilyn ymgynghori i adlewyrchu unrhyw faterion ychwanegol a godwyd. Mae'r asesiadau hyn ar gael ar wefan y Cyngor:

<https://en.powys.gov.uk/article/10004/Ysgol-Bro-Hyddgen-Machynlleth>

Rhoddir crynodeb o'r asesiadau hyn isod:

**i) Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

Os bydd y cynnig yn cael ei weithredu, byddai cyfrwng yr addysg yn Ysgol Bro Hyddgen yn newid i fod yn gyfrwng Cymraeg. Byddai hyn yn cael ei gyflwyno'n raddol o un flwyddyn i'r llall, gan ddechrau gyda phlant Derbyn. Ni fyddai effaith ar y disgyblion presennol.

Nod y cynnig yw gwella'r cyfleoedd addysgol a gynigir i'r holl ddisgyblion yn nalgylch Machynlleth, gan gynnwys disgyblion sy'n disgyn i'r grwpiau nodweddion a warchodir.

Nodir y gallai fod pryderon am effaith y cynnig, i newid categori iaith yr ysgol i fod yn gyfrwng Cymraeg, ar unrhyw ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a fyddai'n mynychu'r ysgol yn y dyfodol. I liniaru'r pryder hwn, byddai angen i'r ysgol ehangu'r cymorth i ddisgyblion ag ADY, fel bo angen i ateb anghenion y grŵp hwn. Bydd y cyfnod ymgynghori'n rhoi cyfle i godi unrhyw bryderon am yr effaith ar ddisgyblion gydag ADY, a bydd y pryderon hyn yn cael eu hystyried wrth i'r broses fynd yn ei blaen.

## **ii) Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned**

Oherwydd bod y cynnig ond yn ymwneud â newid categori iaith Ysgol Bro Hyddgen, y disgwyl yw na fyddai'r cynnig yn effeithio dim bron ar y gymuned. Byddai'r ddarpariaeth gynradd ac uwchradd yn parhau i fod ar gael ym Machynlleth a byddai'r cyfleusterau cymunedol sy'n gysylltiedig â'r ysgol yn parhau i fod ar gael, gan wella'n dilyn codi'r adeilad newydd sydd mewn golwg.

Rydym yn cydnabod y byddai'r cynnig, yn y pen draw, yn arwain at fwy o deithio i ddisgyblion a fyddai eisiau derbyn addysg cyfrwng Saesneg. Fodd bynnag, drwy gyflwyno'r categori iaith newydd yn raddol dros nifer o flynyddoedd, y bwriad yw y byddai gan holl ddisgyblion y dalgylch y sgiliau iaith Gymraeg fyddai eu hangen arnynt i barhau i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg drwy gydol eu hamser yn yr ysgol. Felly dylai nifer y disgyblion a fyddai'n teithio i dderbyn addysg cyfrwng Saesneg fod yn fach.

## **iii) Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg**

Byddai gweithredu'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg oherwydd, ymhen amser, byddai'n sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn nalgylch Machynlleth yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg ac yn dod yn gwbl ddwyieithog mewn Cymraeg a Saesneg, gan arwain at gynnydd yn nifer y disgyblion a fyddai'n gallu defnyddio'r Gymraeg yn hyderus a chyfrannu hefyd at strategaeth Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

## **RHAN D – MANYLION YR YMGYNGHORIAD**

### **Gyda phwy fyddwn ni'n ymgynghori?**

Bydd y Cyngor yn ymgynghori ag ystod o wahanol randdeiliaid fel sy'n ofynnol o dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion, gan gynnwys y canlynol:

- Rhieni, gofawyr a gwarcheidwaid yn Ysgol Bro Hyddgen
- Llywodraethwyr Ysgol Bro Hyddgen
- Staff Ysgol Bro Hyddgen
- Rhieni disgyblion sy'n mynd i'r ysgolion sy'n bwydo Ysgol Bro Hyddgen
- Disgyblion yn Ysgol Bro Hyddgen a'r holl ysgolion sy'n bwydo Ysgol Bro Hyddgen
- Awdurdodau Esgobaeth yr Eglwys Babyddol Rufeinig a'r Eglwys yng Nghymru
- Gweinidog Addysg Cymru
- Awdurdodau Lleol cyfagos
- Cynghorwyr lleol Powys
- Cynghorau Tref a Chymuned yr ardal leol
- Aelod o'r Senedd dros Sir Drefaldwyn ac Aelodau Senedd rhanbarthol yr ardal
- Yr Aelod Seneddol dros Sir Drefaldwyn
- Estyn
- Undebau athrawon a staff
- ERW
- Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed Powys
- Darparwyr addysg feithrin yn yr ardal leol
- Y Mudiad Meithrin
- Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Powys
- Coleg NPTC
- Comisiynydd y Gymraeg

Bydd ymgynghori â disgyblion yn digwydd yn unol â'r safonau cyfranogiad cenedlaethol ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru<sup>3</sup>.

### **Y cyfnod ymgynghori**

Bydd y cyfnod ymgynghori'n dechrau ar 8 Rhagfyr 2020 ac yn dod i ben ar 26 Ionawr 2021.

### **Y broses statudol**

Bydd ymgynghori ar y cynnig hwn yn dilyn y canllawiau a nodir gan Lywodraeth Cymru yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion diwygiedig a ddaeth yn weithredol ar 1 Tachwedd 2018. Crynhoir y broses hon isod:

#### **i) Ymgynghori**

---

<sup>3</sup> [https://llyw.cymru/safonau-cyfranogiad-cenedlaethol-plant-phobl-ifanc?\\_ga=2.3994101.479906115.1606126777-146557461.1594032523](https://llyw.cymru/safonau-cyfranogiad-cenedlaethol-plant-phobl-ifanc?_ga=2.3994101.479906115.1606126777-146557461.1594032523)

Bydd yr ymgynghori'n dechrau ar 8 Rhagfyr 2020 ac yn dod i ben ar 26 Ionawr 2021. Bydd yr adborth o'r broses ymgynghori'n cael ei gasglu a'i grynhoi a bydd adroddiad ymgynghori'n cael ei gynhyrchu a'i rannu â rhanddeiliaid.

Mae'n bwysig nodi na fydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu cyfrif fel gwrthwynebiadau i'r cynnig – gellir ond cofrestru gwrthwynebiadau ar ôl cyhoeddi hysbysiad statudol.

Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried yr adroddiad ymgynghori a'r adborth a dderbyniwyd dros y cyfnod ymgynghori, cyn wedyn penderfynu symud ymlaen â'r cynnig, gwneud newidiadau i'r cynnig, neu beidio â symud ymlaen â'r cynnig. Os bydd y Cabinet yn penderfynu peidio â symud ymlaen, bydd hynny'n ddiwedd ar y cynnig hwn.

Disgwylir y bydd y Cabinet yn ystyried yr Adroddiad Ymgynghori yn ystod gwanwyn 2021.

## **ii) Hysbysiad statudol**

Os yw'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen gyda'r cynnig, bydd hysbysiau statudol yn cael eu cyhoeddi ar ôl cyfarfod y Cabinet. Byddai wedyn 28 diwrnod i bobl gael cyflwyno gwrthwynebiadau ysgrifenedig.

Os bydd unrhyw wrthwynebiadau, bydd y Cyngor yn cyhoeddi adroddiad gwrthwynebiadau'n rhoi crynodeb o'r gwrthwynebiadau ac ymateb y Cyngor iddynt, cyn pen saith diwrnod gan ddechrau gyda dyddiad penderfyniad yr awdurdod lleol. Dim ond gwrthwynebiadau ysgrifenedig a gyflwynir dros gyfnod yr hysbysiad statudol fydd yn cael eu hystyried a'u cynnwys yn yr adroddiad hwn. Ni fydd sylwadau a gyflwynir dros y cyfnod ymgynghori'n cael eu cyfrif fel gwrthwynebiadau. Os bydd rhanddeiliaid am i'w hymatebion i'r ymgynghoriad gael eu hystyried fel gwrthwynebiadau, byddai angen iddynt eu hail-gyflwyno'n ysgrifenedig dros gyfnod yr hysbysiad statudol.

Byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor i'w ystyried ochr yn ochr â'r adroddiad ar y gwrthwynebiadau, er mwyn penderfynu a ddylid cymeradwyo'r cynnig neu beidio.

Disgwylir i benderfyniad terfynol gael ei wneud erbyn diwedd blwyddyn academaidd 2020/21.

## **iii) Gweithrediad**

Pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo gan Gabinet y Cyngor, byddai'n cael ei weithredu ar sail y dyddiad yn yr Hysbysiad Statudol neu unrhyw ddyddiad a ddiwygiwyd.

## **Sut i ymateb i'r ymgynghoriad**

Mae ffurflen ymateb yn amgaaedig gyda'r ddogfen hon. Mae ffurflen ar-lein hefyd ar gael ar wefan y Cyngor:

<https://cy.powys.gov.uk/article/10004/Ysgol-Bro-Hyddgen-Machynlleth>

Neu gallwch ymateb drwy lythyr.

Dylid anfon ffurflenni ac ymatebion ysgrifenedig eraill, wedi eu cwblhau, i'r cyfeiriad canlynol:

*Y Tîm Trawsnewid Addysg, Cyngor Sir Powys, Neuadd y Sir, Llandrindod, LD1 5LG*

*E-bost: [school.consultation@powys.gov.uk](mailto:school.consultation@powys.gov.uk)*

Dylai pob gohebiaeth ein cyrraedd erbyn **26 Ionawr 2021**.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach am y cynnig hwn, gallwch gysylltu â'r Tîm Trawsnewid Addysg ar y manylion cyswllt uchod, neu drwy ffonio (01597) 826277.

## ATODIAD A – DATA ALLWEDDOL

Mae gwybodaeth am ysgolion y mae'n debygol y bydd y cynigion yn effeithio arnynt wedi'i ddarparu isod.

Gan mai'r cynnig yw i gyflwyno'r newid i gategori iaith Ysgol Bro Hyddgen yn raddol, ni fyddai'n rhaid i unrhyw ddisgyblion presennol drosglwyddo i ysgolion eraill. Felly, barn y Cyngor yw mai Ysgol Bro Hyddgen yw'r unig ysgol fyddai'n cael ei heffeithio gan y cynnig.

Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, mae'n bosibl y byddai rhai disgyblion yn dewis mynychu ysgolion eraill yn y dyfodol er mwyn cael mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Saesneg, yn y sector uwchradd yn arbennig. Fodd bynnag, y disgwyliad yw y byddai nifer y disgyblion yn fach, felly ni fyddai effaith sylweddol ar yr ysgolion hyn.

### Gwybodaeth gyffredinol

	Math o ysgol	Categori iaith	Niferoedd derbyn	Ysgol wledig? <sup>4</sup>
<b>Ysgol Bro Hyddgen</b>	Ysgol Ganol Gymunedol (pob oed)  Cyngor Sir Powys sy'n berchen ar adeilad yr ysgol	Dwyieithog (math B)	31 - Cynradd 73 - Uwchradd	Na

### Nifer y disgyblion

#### i) Nifer presennol y disgyblion<sup>5</sup>

	D	1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	11	12	13	Cyfanswm
<b>Cyfrwng Cymraeg</b>	11	19	17	13	16	25	12	43	28	39	29	35	17	28	332
<b>Cyfrwng Saesneg</b>	5	6	6	6	10	7	12	8	17	15	17	18	6	12	145
<b>Cyfanswm</b>	16	25	23	19	26	32	24	51	45	54	46	53	23	40	477

#### ii) Nifer y disgyblion yn hanesyddol<sup>6</sup>

<sup>4</sup> Mae Atodiad F o Gôd Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (2018) (<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-10/cod-trefniadaeth-ysgolion-fersiwn-diwygiedig.pdf>) yn cynnwys rhestr o 'ysgolion gwledig' y mae 'rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig' yn berthnasol iddynt.

<sup>5</sup> Cyllid - NOR – Diwrnod Cyfrif Disgyblion 2020

<sup>6</sup> PLASC

	Ion. 2014	Ion. 2015	Ion. 2016	Ion. 2017	Ion. 2018	Ion. 2019	Ion. 2020
<b>Ysgol Bro Hyddgen</b>	560	564	520	486	488	483	474

iii) **Nifer disgwyliedig y disgyblion**

	Ion. 2021	Ion. 2022	Ion. 2023	Ion. 2024	Ion. 2025
<b>Ysgol Bro Hyddgen</b>	464	469	477	465	463

**Capasiti a Chyflwr yr Adeiladau**

i) **Capasiti**

Mae'r tabl canlynol yn cynnwys gwybodaeth am gapasiti presennol Ysgol Bro Hyddgen:

	<b>Capasiti presennol</b>	<b>Faint yn llawn ar hyn o bryd</b>	<b>Capasiti gwag</b>
<b>Ysgol Bro Hyddgen – Campws Cynradd</b>	213	165 (77.5%)	48 (22.5%)
<b>Ysgol Bro Hyddgen – Campws Uwchradd</b>	442	312 (70.6%)	130 (29.4%)

ii) **Cyflwr yr adeiladau**

Yn 2009 cyflawnodd Llywodraeth Cymru asesiad o gyflwr a pha mor addas oedd y ddwy ysgol:

	<b>Cyflwr</b>	<b>Addasrwydd</b>	<b>Neuadd ar y safle</b>
<b>Ysgol Bro Hyddgen – Campws Cynradd</b>	C Gwael	B Da	Oes
<b>Ysgol Bro Hyddgen – Campws Uwchradd</b>	C Gwael	C Gwael	Oes

Mae adeilad newydd ar y gweill ar gyfer Ysgol Bro Hyddgen a'r disgwyl yw y bydd yn agor ym mis Medi 2023.

## Ansawdd a Safonau'r Addysg

### i) Estyn

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi arolygiadau diwethaf gan Estyn o'r ysgol:

	<b>Ysgol Bro Hyddgen</b>
<b>Dyddiad yr arolygiad</b>	Chwefror 2017
<b>Safonau</b>	Digonol
<b>Lles</b>	Da
<b>Profiadau dysgu</b>	Digonol
<b>Addysgu</b>	Da
<b>Gofal, cymorth ac arweiniad</b>	Da
<b>Amgylchedd dysgu</b>	Da
<b>Arweinyddiaeth</b>	Da
<b>Ansawdd yn gwella</b>	Digonol
<b>Gweithio mewn partneriaeth</b>	Da
<b>Rheoli adnoddau</b>	Digonol
<b>Canlyniad</b>	Bydd yr ysgol yn cynhyrchu cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn rhoi sylw i'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

### ii) Categoriâu'r ysgolion

Mae categorïau diweddaraf y ddwy ysgol, yn unol â'r System Genedlaethol ar gyfer Categorioidio Ysgolion 2019, fel a ganlyn:

	<b>Grŵp Safonau</b>	<b>Capasiti i Wella</b>	<b>Capasiti Cymorth</b>
<b>Ysgol Bro Hyddgen</b>	Amherthnasol	B	Melyn

## Sefyllfa'r gyllideb

	<b>Gwir Alldro Cronnus 2019/20</b>	<b>Cyllideb 2020/21</b>	<b>Cyllideb 2021/22</b>	<b>Cyllideb 2022/23</b>
--	------------------------------------	-------------------------	-------------------------	-------------------------



<b>Ysgol Bro Hyddgen</b>	£162,071	£197,602	£125,798	£34,764

### Gwybodaeth am Gydraddoldeb<sup>7</sup>

**i) Hunaniaeth genedlaethol**  
(Disgyblion 5+ oed ar 31 Awst 2019)

	Prydeinig	Sais / Saesnes	Gwyddel(e)s	Albanaid	Cymro / Cymraes	Aral	Heb nodi	Wedi gwrthod	Cyfanswm disgyblion
<b>Ysgol Bro Hyddgen Campws Cynradd</b>	36.4%	9.2%	0%	0%	37.6%	3.5%	0%	0.6%	173
<b>Ysgol Bro Hyddgen Campws Uwchradd</b>	20.3%	8.6%	0%	0%	68.4%	2.3%	0.0%	0.3%	301

**ii) Grŵp ethnig**  
(Disgyblion 5+ oed ar 31 Awst 2019)

	Gwyn Prydeinig	Tarddiad ethnig arall	Heb dderbyn y wybodaeth eto	Cyfanswm disgyblion
<b>Ysgol Bro Hyddgen Campws Cynradd</b>	82.1%	3.5%	15.5%	173
<b>Ysgol Bro Hyddgen Campws Uwchradd</b>	96.7%	3.0%	0.3%	301

**iii) Saesneg fel Iaith Ychwanegol (EAL)**

	NOR	% EAL	% EAL A/B/C
<b>Ysgol Bro Hyddgen Campws Cynradd</b>	173	0%	0%

<sup>7</sup> PLASC 2020

<b>Ysgol Bro Hyddgen Campws Uwchradd</b>	301	0.7%	0.0%

iv) **Prydau Ysgol Am Ddim**

	<b>Dim hawl i brydau ysgol am ddim</b>	<b>Hawl i brydau ysgol am ddim</b>	<b>Cyfanswm y disgyblion</b>	<b>% gyda hawl i brydau ysgol am ddim</b>
<b>Ysgol Bro Hyddgen Campws Cynradd</b>	148	25	173	14.5%
<b>Ysgol Bro Hyddgen Campws Uwchradd</b>	266	35	301	11.6%

v) **Plant sy'n derbyn gofal**

	<b>Plant sy'n derbyn gofal</b>
<b>Ysgol Bro Hyddgen</b>	1.1%

vi) **Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**

	<b>Dim</b>	<b>Gweithredu gan yr ysgol</b>	<b>Gweithredu gan yr ysgol a mwy</b>	<b>Datganiad</b>	<b>Cyfanswm disgyblion</b>	<b>% ADY</b>
<b>Ysgol Bro Hyddgen Campws Cynradd</b>	74.0%	15.6%	8.7%	1.7%	173	26.0%
<b>Ysgol Bro Hyddgen Campws Uwchradd</b>	88.0%	7.6%	0%	0%	301	12.0%

## ATODIAD B – DADANSODDIAD SWOT A FFACTORAU HANFODOL I LWYDDIANT – OPSIYNAU IAITH

### 1. DADANSODDIADAU SWOT

Cyflwynir isod y dadansoddiadau SWOT a wnaed ar bob un o'r tri opsiwn iaith yn adran 5:

#### Opsiwn 1: Dim newid

Cryfderau	Gwendidau
